

Sylwadau ar gystadleuaeth 381 yn Eisteddfod yr Urdd 2018.

Roedd safon y 79 a ddaeth i'r gystadleuaeth yn amrywio'n fawr iawn. Disgwyliwn gynllun pendant, iaith ac atalnodi cywir, idiomau a chymariaethau gwreiddiol. Dengys llawer o'r storiâu bod y plant wedi darllen yn eang a bod awduron cyfoes wedi tanio'u dychymyg. Buaswn yn argymhell y plant i ddarllen eu gwaith yn uchel er mwyn iddynt glywed ambell i wall ac arbed ail adrodd geiriau'n rhy aml.

Ceir sylwadau ar y tri a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth 381, sef stori Taith i'r Gofod yng nghyfrol Cyfansoddiadau'r Eisteddfod. Daeth y pump canlynol yn uchel yn y dosbarth cyntaf hefyd. Dyma ychydig o sylwadau ar bob un ohonynt.

Bili Bom Bom (381/38): Stori wreiddiol wedi'i chyflwyno'n gelfydd o fewn ffrâm liwgar o blanedau a sêr sydd gan Bili Bom Bom. Roedd rhoi'r enw Rwdofog, (sef y gair gofodwr wedi'i ysgrifennu am yn ôl) ar un o'r cymeriadau yn ddyfeisgar dros ben. Mae'r iaith yn goeth a'r eirfa'n foddhaol iawn.

Fleur de Lys (381/26): Mae stori Fleur de Lys yn amserol iawn ac iddi neges am y modd y mae dyn yn llygru'r ddaear. Mae'r daith i'r gofod yn cychwyn yn union ar ddechrau'r stori heb unrhyw ragymadrodd. Mae'r eirfa'n loyw a'r gramadeg yn gywir ar y cyfan.

Gareth Bale (381/59): Mae Gareth Bale wedi cyfuno'i ddiddordeb amlwg mewn pêl droed â'i antur i'r gofod. Dyma stori gyfoes sy'n cynnwys enwau chwaraewyr a rheolwyr sydd yn y newyddion heddiw. Mae angen rhoi ychydig mwy o sylw i gywirdeb iaith ac atalnodi.

Seren (381/25): Mae gan Seren stori sydd wedi'i chynllunio'n dda lle mae'n datrys problem y sbotyn du a wêl Jac ar y lleuad o ffenest ei loft. Ceir yma eirfa dda a defnydd effeithiol o idiomau a dawn i ddyfeisio geiriau megis Trwsiafwr.

Slonc (381/50): Mae Dafydd a'i frawd yn y stori hon yn adeiladu llong ofod sy'n mynd â nhw i'r blaned Slonc er mwyn iddynt ddianc rhag y Trydydd Rhyfel Byd sydd ar fin ddigwydd ar y ddaear. Adroddir y stori mewn modd reit gyffrous mewn iaith dda, ond teimlaf nad oes iddi ddiweddglo foddhaol.

Llongyfarchiadau i bawb a anfonodd stori i'r gystadleuaeth. Daliwch at i ddarllen yn eang a gwnewch ddefnydd da o eiriaduron.